Dyletswyddau a chyfrifoldebau

**DYLETSWYDDAU**

- Cyflawni dyletswyddau yn unol â'r hyn a nodir yn y cynlluniau gofal a chymorth. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion cymhleth neu anghenion sylweddol.

- Cynorthwyo â'r gwaith o asesu defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion cymhleth neu anghenion sylweddol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys ar y cynlluniau gofal / cymorth.

- Datblygu a chynnal rhaglenni gwaith penodol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y rhaglenni uniongyrchol a rhithiol hyn yn cael eu cynnig i unigolion (ar sail un-i-un), teuluoedd neu grwpiau. Byddwch yn cyflawni'r gwaith hwn ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill gan gefnogi cynlluniau gofal a chymorth personol y defnyddwyr gwasanaeth.

- Cynorthwyo â datblygiadau, adnoddau, rhaglenni a phrosiectau o fewn y gwasanaeth. Byddwch yn datblygu ac yn darparu sesiynau / cymorth penodol i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion cymhleth neu anghenion sylweddol.

- Hwyluso hyfforddiant sy'n seiliedig ar ddysgu a sgiliau mewn grwpiau bach.

- Os bydd angen, bod yn gyfrifol am lwyth achosion / llwyth gwaith bychan yn unol â'r cyfarwyddyd a roddir i chi lle bydd gofyn gweithio'n ddwys gyda'r defnyddwyr gwasanaeth i'w hatal nhw rhag bod mewn sefyllfa o argyfwng.

- Nodi a rheoli risgiau tymor byr a thymor canolig i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel gan adnabod y risgiau y mae'n rhaid eu huwchgyfeirio i'r gweithiwr proffesiynol priodol.

- Bod yn gyfrifol am gyflwyno mesurau atal ac ymyrraeth, gan gynnwys achosion cymhleth. Bydd hyn yn cefnogi unigolion â'u lles meddyliol, cymdeithasol a chorfforol ac yn ceisio gwella eu canlyniadau yn yr hirdymor.

- Cydweithio ag unigolion, eu teuluoedd ac asiantaethau eraill mewn ffordd gyson a rhagweithiol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau yng nghyswllt arwyddion diogelwch.

- Pan fo perthynas unigolion â'i gilydd yn anodd, cyflwyno dulliau o gefnogaeth y cytunir iddynt sy'n cyd-fynd â'r cynlluniau gofal a chymorth.

- Ymgymryd â gofal personol yn unol â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun gofal a chymorth gan ddilyn y technegau codi a chario cywir.

- Dilyn y cynllun rheoli ymddygiad cadarnhaol y cytunwyd iddo gan ddefnyddio'r technegau a'r adnoddau a nodir yn y cynllun gofal a chymorth neu unrhyw gynllun ymyrraeth arall.

- Darparu datganiad tyst ar gyfer achosion cyfreithiol pan fo angen.

- Cadw systemau cofnodi cyfredol yn ôl yr angen er mwyn cofnodi eich gwaith.

- Bod ar gael i weithio oriau anghymdeithasol.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â lefel a disgwyliadau'r swydd, gan gynnwys gweithio mewn tîm a/neu leoliad arall pan fo angen.

| | |
|---|---|
| | • Profiad o ddarparu gofal personol.<br>• Profiad o'r technegau codi a chario priodol.<br>• Dealltwriaeth o'r Ddeddf Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br>• Dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â datblygiad plant a chyflyrau sy'n medru effeithio ar bobl hŷn megis dementia.<br>• Dealltwriaeth o sut y gellir gwella lles plant ac oedolion.<br>• Y gallu i baratoi cofnod byr a chryno o unrhyw gamau a gymerir a chofnodi'r canlyniadau.<br>• Y gallu i gyfrannu ar lafar ac yn ysgrifenedig at asesiadau ac adolygiadau.<br>• Dealltwriaeth o bwysigrwydd dadansoddi a myfyrio yn eich gwaith.<br>• Y gallu i weithio'n effeithiol o gartref, gan gynnwys band eang dibynadwy o ansawdd da.<br><br>Profiad o gefnogi oedolion a theuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol a/neu anghenion cymhleth i ddeall polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data. |

